OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 292 (Cy. 66)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *13 Mawrth 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *17 Mawrth 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *15 Ebrill 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 122(1) a 124 o Ddeddf Addysg 2002(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru yn unol ag adran 126(**3**) o'r Ddeddf honno wedi ymgynghori â'r personau hynny a'r cyrff hynny y cyfeirir atynt yn yr adran honno yr oedd yn ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn briodol.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2020 a daw i rym ar 15 Ebrill 2020.

### Diwygio Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2019

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2019(**4**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 1(3), yn y diffiniad o "y Ddogfen", yn lle "dyddiedig Medi 2019." rhodder "dyddiedig Medi 2019 ac a gyhoeddir ar wefan llyw.cymru(**5**)."

(**1**) 2002 p. 32. Diwygiwyd adran 122 gan erthygl 5(1) o O.S. 2010/1158, a chan baragraff 11 o Ran 1 o Atodlen 2 iddo.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Weinidogion Cymru gan erthygl 39 o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644).
(**3**) Trosglwyddwyd y swyddogaeth hon o'r Ysgrifennydd Gwladol i Weinidogion Cymru gan erthygl 39 o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644).
(**4**) O.S. 2019/1363 (Cy. 236).
(**5**) https://llyw.cymru/addysgu-ac-arweinyddiaeth.

*Kirsty Williams*
13 Mawrth 2020 Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio erthygl 1(3) o Orchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2019 i egluro ymhellach ym mha le y cyhoeddir Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2019 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.